

Cynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Dewis Lleihau cyfraniadau CPLIL dros dro



Cwblhewch y ffurflen hon os hoffech chi ymuno ag adran 50/50 y cynllun. Bydd ymuno â'r adran 50/50 yn lleihau eich cyfraniadau pensiwn CPLIL dros dro o 50%, a fydd hefyd yn lleihau eich buddion pensiwn o 50%, o'u cymharu â'r buddion ym mhrif adran y cynllun. Fodd bynnag, ni fydd ymuno â'r adran 50/50 yn effeithio ar eich cyfandaliad grant marwolaeth a'ch budd-daliadau ymdeol oherwydd afiechyd yn unol â CPLIL 2014.

Darllenwch y nodiadau dros y ddalen yn ofalus cyn dewis lleihau eich cyfraniadau dros dro a symud i'r adran 50/50. Os dymunwch barhau, cwblhewch y ffurflen hon a'i **dychwelyd i Dîm Cyflogres eich cyflogwr.**

Manylion Personol										
Teitl:	(ticiwch fel sy'n briodol)	Mr		Mrs.		Miss.		Ms.		Arall
Enw Llawn:										
Rhif Yswiriant Gwladol:						Dyddiad Geni:				
Cyfeiriad Cartref:										
						Cod Post:				
Rhif Ffôn:										
Cyfeiriad E-bost:										

Manylion Eich Cyflogaeth	
Awdurdod Cyflogi:	
Nodwch isod fanylion y swydd yr hoffech chi symud yn ôl ynddi i brif adran y CPLIL. Sylwer y bydd angen i chi gwblhau Ffurflen Ddewis ar gyfer pob cyflogaeth os hoffech chi wneud hyn mewn mwy nag un swydd.	
Rhif Cyfeirnod Cyflogres:	
Rhif y Swydd (os yw'n berthnasol)	
Teitl y Swydd/Disgrifiad o'r Swydd: (os yw'n hysbys)	

Datganiad	
<p>Deallaf y byddaf yn talu 50% o'r cyfraniadau pensiwn arferol, a chronni 50% o'r buddion pensiwn arferol. O dan y rheolau Cofrestru Awtomatig, bydd angen i'm cyflogwr fy ailgofrestru i brif adran y CPLIL bob tair blynedd.</p> <p>Gallaf ddewis ailymuno â phrif adran y cynllun ar unrhyw adeg trwy gwblhau'r ffurflen Dewis Ailymuno â Phrif Adran y CPLIL.</p> <p>Wedi darllen yr wybodaeth uchod a'r nodyn arweiniad dros y ddalen, dymunwn ymuno ag adran 50/50 y CPLIL o'r cyfnod talu nesaf sydd ar gael. Byddaf yn dychwelyd y Ffurflen Ddewis hon i'm cyflogwr.</p>	
Llofnod:	Dyddiad:

DARLLENWCH Y NODIADAU ARWEINIAD HYN YN OFALUS CYN GWNEUD EICH DEWIS

Sut mae'r dewis 50/50 yn gweithio?

Ceir dwy adran yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2014: yr elfen arferol a elwir yn **brif adran** a'r **adran 50/50**. Y brif adran yw lle rydych yn talu cyfraniadau arferol ac yn cael y cronïadau pensiwn arferol, ond yn yr adran 50/50 bydd gennych ddewis i dalu hanner eich cyfraniadau arferol i Gronni hanner eich pensiwn arferol yn ystod yr amser hwn. Ni waeth a ydych yn cyfrannu yn y brif adran neu'r adran 50/50, byddwch yn cael yswiriant bywyd llawn tra byddwch yn aelod o'r cynllun.

Gallwch ddewis symud rhwng y brif adran a'r adran 50/50 ar unrhyw adeg. Rhaid nodi dewis i wneud hynny yn ysgrifenedig trwy gwblhau'r ffurflen hon, y mae'n rhaid ei dychwelyd i'ch **cyflogwr**. Ystyrir cwblhau'r ffurflen hon yn fater o chi'n dewis i ymuno â'r adran 50/50. Er mwyn ailymuno â'r brif adran, bydd rhaid i chi ofyn am ffurflen arall gan eich cyflogwr. Os ydych yn cyfrannu at y CPLIL dan fwy nag un swydd, gallwch ddewis yr adran 50/50 ar gyfer un, rhai neu bob un o'ch swyddi.

Pa mor hir y gallaf gyfrannu dan yr adran 50/50?

Bwriedir i'r adran 50/50 fod yn ddewis tymor byr yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Mae'n ofynnol i'ch cyflogwr eich ailgofrestru i brif adran y cynllun yn unol â dyddiad Cofrestr neu Ailgofrestru Awtomatig eich cyflogwr. Bydd eich cyflogwr yn eich hysbysu pan fydd ar fin digwydd. Os dymunwch barhau yn yr adran 50/50 ar ôl hyn, bydd rhaid i chi gyflwyno cais dewis arall. I gael mwy o wybodaeth am hyn, gofynnwch i'ch cyflogwr.

Os ydych yn cyrraedd cyfnod o 'Dim Tâl' oherwydd salwch neu anaf, byddwch yn ailymuno â phrif adran y cynllun ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod talu nesaf sydd ar gael ar ôl i chi dychwelyd i'r gwaith. I barhau yn yr adran 50/50, bydd rhaid i chi gyflwyno cais dewis arall.

Gallwch ddewis ailymuno â phrif adran y cynllun ar unrhyw adeg trwy gwblhau'r ffurflen Dewis Ailymuno â Phrif Adran y CPLIL. Yna byddech yn dechrau cronni buddion llawn y brif adran o'r cyfnod talu nesaf sydd ar gael.

Sut bydd fy mhensiwn yn cymharu dan yr adran 50/50?

ENGHRAIFFT (ar sail cyflog pensiwnadwy blynyddol o £18,000)		
	PRIF ADRAN	ADRAN 50/50
Cyfraniad Gros Blynyddol:	£1,044 (5.8%)	£522 (2.9%)
Croniad Pensiwn Blynyddol:	£367.35 (1/49 th)	£183.67 (1/98 th)
Yswiriant Bywyd:	£54,000 (3 x £18,000)	£54,000 (3 x £18,000)

A fydd dewis yr adran 50/50 yn effeithio ar y 'cyfraniadau ychwanegol' rwy'n eu talu ar hyn o bryd?

Os ydych yn talu cyfraniadau ychwanegol neu'n ystyried talu cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol, cysylltwch â'r **Is-adran Bensiwnau** i gael mwy o wybodaeth am sut gallai'r adran 50/50 effeithio ar hyn.

Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u cwblhau i Dîm Cyflogres eich cyflogwr.